# Fforwm Rheoli Tir Cymru

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Adeilad Llywodraeth Cymru, Aberystwyth

**Dyddiad y Cyfarfod:** 10 Chwefror 2020

**Yn Bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Ruth Jenkins, CNC

Dennis Matheson, TFA

Bob Vaughan, CNC drwy skype

Sarah Hetherington, CNC drwy skype

Marc Williams, CNC

Aled Jones, Undeb Amaethwyr Cymru

Rachel Lewis-Davies, NFU

Hedd Pugh, NFU

Geraint Davies, CNC

Anthony Geddes, Confor drwy skype

Mark Alexander, Llywodraeth Cymru

John Browne, CNC

Geri Mills, CNC

Russell De'Ath, CNC drwy skype

Nichola Taylor, CNC drwy skype

Tim Kirk, Confor

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Clive Walmsley, CNC drwy skype (Eitem 5)

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Marc Williams (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

**Ymddiheuriadau:**

Dominic Driver, CNC

Martyn P Evans, CNC

Elliott Rillie, CLA

Ceri Davies, CNC

Huwel Manley, CNC

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mark Alexander fel aelod parhaol o'r Fforwm o Lywodraeth Cymru. Diolchodd Mark Alexander i'r Fforwm am y gwahoddiad i ddod yn gynrychiolydd sefydlog o Lywodraeth Cymru a chadarnhaodd ei fod yn manteisio ar y cyfle i feithrin cysylltiadau ag arweinwyr polisi eraill

3. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

4. Adolygodd y Grŵp gofnodion y Cyfarfod ym mis Rhagfyr 2019 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir, yn amodol ar y mân ddiwygiadau canlynol:

- Eitem 8 paragraff 2 Diwygiad i gadwraeth.
- Eitem 9 paragraff 3 Diwygiad i gyswllt.

5. Adolygodd y Cadeirydd y pwyntiau gweithredu a gwnaed y sylwadau a ganlyn:

- Pwynt gweithredu 05 Mai: Wedi'i ryddhau, mae Mark Alexander bellach yn aelod sefydlog o'r Fforwm.
- Pwynt gweithredu 10 Mai: Wedi'i gario ymlaen.
- Pwynt gweithredu 02 Medi: Bob Vaughan i adolygu ac anfon organogram i'r Fforwm.
- Pwynt gweithredu 05 Medi: Gwnaeth y Cadeirydd adolygu a rhyddhau gan nodi'r amseroedd anodd a heriol y mae ffermwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

6. Trafododd y Fforwm ymhellach AP05 Medi mewn perthynas â Chreu Coetiroedd yng Nghymru, gan nodi:

- Rydym yn wynebu argyfwng natur a hinsawdd felly mae angen i bawb addasu a lliniaru’r effeithiau.

- Cynhaliwyd hyfforddiant gan y Sefydliad DPJ yn CNC i helpu staff nodi problemau iechyd meddwl y gallai ffermwyr eu hwynebu.

- Cadarnhaodd Mark Alexander fod grŵp cymuned wledig ar waith y mae'n ei gadeirio, a bod y grŵp hwn yn derbyn cyllid drwy gronfa bontio'r UE. Y bwriad yw lansio porthol a fydd yn cadw'r holl wybodaeth am bolisïau a rheoliadau.

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal adolygiad o broblemau iechyd meddwl, sy'n adolygu'r angen i ddeall rolau wrth ystyried a chefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl. Nodwyd bod yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

- Roedd angen i'r Fforwm ystyried sut y mae'n dod â phobl at ei gilydd i ystyried a datrys problemau sy'n ymwneud â materion amgylcheddol, gan ddarparu adnoddau a fyddai'n galluogi mwy o gymunedau gwledig a ffermwyr i ddod at ei gilydd.
- Bydd Datganiadau Ardal CNC, sydd i'w lansio ym mis Ebrill 2020, yn allweddol wrth ddwyn cymunedau ynghyd.

- Bydd manylder, lefel a thôn y gwaith ymgysylltu â'r sector ffermio yn allweddol i lwyddiant. Mae angen darbwyllo ffermwyr y gallant ddatrys problemau ar eu pen eu hunain gan ddarparu atebion.

- Cysylltiadau ymgysylltu â chyflenwi RhANG (Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy) a chyflawni yn unol â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

- Wrth ystyried Creu Coetiroedd mae angen ystyried cynlluniau plannu ar raddfa fawr ac ar raddfa lai, wedi'u hategu gan y swm angenrheidiol o Gyllid Glastir i gyd-fynd â'r ceisiadau a gyflwynir.

- Mae angen adolygu'r cyllid sydd ar gael a'r rheoliadau sydd ar waith yng Nghymru ar gyfer Creu Coetiroedd er mwyn denu cyfleoedd Creu Coetiroedd.

I gloi, nododd y Cadeirydd fod angen trafod cyfleoedd Creu Coetiroedd a rhwystrau i greu coetiroedd yn fanylach. Cytunodd y Fforwm y dylai Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r Fforwm gael ei drefnu gan Dominic Driver sy'n arwain ar ran CNC.

***Pwynt gweithredu 01 Chwefror: Dominic Driver i drefnu Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fydd yn cynnwys aelodau'r Fforwm er mwyn nodi'r rhwystrau i greu coetiroedd ac a fydd yn adrodd yn ôl wrth y Fforwm ar yr argymhellion.***

## Eitem 3 Llywodraethu Fforwm Rheoli Tir Cymru

7. Cynhaliodd y Fforwm ei adolygiad blynyddol o Gylch Gorchwyl y grŵp gan nodi'r angen i gynnwys Llywodraeth Cymru fel aelod o'r Fforwm.

8. Trafododd y Fforwm ymgysylltu â rhanddeiliaid a daeth y Cadeirydd i'r casgliad y bydd yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Masnachol a benodir yn fuan adolygu a datblygu gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Trafododd y Fforwm bosibilrwydd cynnwys aelodau eraill i'r grŵp a daeth i'r casgliad ei bod yn bwysig sicrhau bod y grŵp yn parhau i ychwanegu gwerth ac yn darparu trafodaeth sy'n wahanol i drafodaethau grwpiau rhanddeiliaid eraill.

9. Cymeradwyodd y Fforwm y diwygiad i'r Cylch Gorchwyl a chadarnhaodd yr adolygiad nesaf a fydd yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2021.

## Eitem 4 Diweddariad CNC

10. **Diweddariad Polisi – Y Goedwig Genedlaethol:** Cyflwynodd Ruth Jenkins, CNC, yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnig y Gweinidogion ar gyfer Coedwig Genedlaethol. Cadarnhaodd fod y gwaith o ddatblygu'r cynnig ariannu ar gyfer y £4.5 miliwn a ddyrannwyd i'r Cynllun yn parhau a bydd yn cael ei rannu ar draws ystod o ganlyniadau sy'n cynnwys gwella coetiroedd presennol, ymgysylltu â'r gymuned, creu coetiroedd newydd a bioamrywiaeth. Bydd y Cynllun o fewn cyd-destun adroddiad y pwyllgor ar y newid yn yr hinsawdd ac yn cefnogi'r argyfwng natur. Nododd y grŵp yr heriau a gyflwynwyd gan y Gymdeithas Ffermwyr Tenant - nid yw creu coetiroedd yn bosibl ar ffermydd â thenantiaid oherwydd gofynion tenantiaeth.

    Tynnodd yr NFU sylw at ddigwyddiad diweddar ERAMMP a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, a fynychwyd gan Confor a'r FUW a drafododd ryddhau pecyn gwybodaeth brys i gefnogi'r Goedwig Genedlaethol.

***Pwynt gweithredu 02 Chwefror: Mark Alexander i ofyn am ragor o wybodaeth am y pecyn gwybodaeth brys, pryd y bydd hwn ar gael a'r wybodaeth y mae'n debygol o'i chynnwys.***

Esboniodd Ruth Jenkins fod ERAMMP yn offeryn modelu a fydd yn datblygu cyfleoedd yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith ar y Datganiad Ardal y mae CNC yn ei gyflawni ar draws Cymru ar hyn o bryd, a ategir gan benderfyniadau er mwyn darparu gwybodaeth y gall ffermwyr gael gafael arni.

11. **Diweddariad Polisi – Glastir:** Cadarnhaodd Ruth Jenkins fod cyfnod arall ar gyfer datgan diddordeb ar agor. Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol. Nododd y Fforwm y pryderon a godwyd gan yr FUW mewn perthynas â'r oedi o ran y llythyrau at gyfranogwyr yn y cynlluniau diwethaf. Tynnodd Ruth sylw at yr angen i gyflwyno gwaith paratoi ymlaen llaw yn gynnar. Nododd y Fforwm fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried cynnwys gwrychoedd mewn ceisiadau.

12. **Datganiadau Ardal:** Cadarnhaodd Russell a Nichola fod gwaith datblygu symud ymlaen a'r bwriad oedd lansio'r Datganiadau Ardal ar wefan CNC ar ddechrau mis Ebrill 2020. Bydd pob Datganiad Ardal yn cynnwys cipolwg o'r gwaith hyd yma gyda themâu'n dod i'r amlwg i ddechrau taith ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mhob man neu

ardal. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn gyfle i rannu heriau, gwaith arloesol ac arferion cydweithio.

Mae CNC yn datblygu porth data ar wahân i ddwyn ynghyd dystiolaeth a ddefnyddir i drafod opsiynau newid wrth symud ymlaen.

Nododd Dennis Matheson nad oedd wedi derbyn gwahoddiad i ddigwyddiad lleol.

***Pwynt gweithredu 03 Chwefror: Russell De'Ath i ofyn i'r tîm datganiadau ardal lleol gysylltu â Dennis i rannu dyddiadau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol.***

13. **Trwyddedau Cyffredinol:** Cadarnhaodd Ruth Jenkins ddiweddariad ar drwyddedau cyffredinol, a nododd fod trwyddedau adar ar fin cael eu cyflwyno ar gyfer adolygiad llawn o'r trwyddedau. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal gyda Rhanddeiliaid ar 20 Chwefror 2020. Nododd y Fforwm fod her gyfreithiol ar waith yn erbyn CNC a bod CNC yn bwrw ymlaen gydag adolygiad cyffredinol. Gofynnodd Ruth Jenkins i aelodau'r Fforwm rannu unrhyw broblemau a achoswyd gan y gwaharddiad dros dro drwy anfon e-bost at CNC.

## Eitem 5 Cynllun Argyfwng Hinsawdd CNC

14. Croesawodd y Cadeirydd Clive Walmsley (CNC) i'r cyfarfod i drafod y cyflwyniad a roddwyd yng nghyfarfod y Fforwm ym mis Rhagfyr 2019. Nododd Clive y pwyntiau canlynol:

- Cafodd argyfwng hinsawdd ei ddatgan gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019 mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd am ostyngiad o 95% mewn nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.

- Mewn ymateb i hyn, archwiliodd CNC ei rôl gan ddod i’r casgliad bod angen cwmpasu camau gweithredu y gall CNC eu cymryd er mwyn cefnogi datganiad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Adfer mawndiroedd – anelu at adfer tua 3,000 hectar ar ystâd goetir Llywodraeth Cymru.
- Prosiect carbon positif – canolbwyntio ar leihau allyriadau
- Potensial creu coetiroedd – edrych ar gaffael tir ychwanegol ar gyfer plannu er mwyn gwneud iawn am y coetir a gollir ar gyfer creu ynni gwynt
- Ynni adnewyddadwy – CNC yn edrych ar opsiynau ar gyfer hunan-gyflenwi
- Cynyddu fflyd CNC i gynnwys cerbydau carbon isel a cherbydau trydan
- Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwresogi adeiladau sy'n golygu newid i ffynhonnell gwres carbon isel
- Caffael – Mae CNC wedi nodi allyriadau o 59% o waith caffael. Mae CNC yn edrych ar sut y gellir cynnwys ystyriaethau o ran allyriadau carbon yn y system gaffael

- Ystyried carbon yn ein gwasanaeth ymateb o ran rôl cynllunio a rheoleiddio

- Herio rhannau eraill o'r sefydliad hefyd i ystyried carbon o fewn ei dasgau gwaith

15. Nododd CNC ei fod yn cydnabod bod ganddo gyfoeth o dystiolaeth o ran yr effeithiau ar yr amgylchedd naturiol a fydd hefyd yn cael ei nodi yn y SoNaRR. Yn fewnol, nododd CNC mai'r allwedd i newid fydd ymgysylltu â staff er mwyn sicrhau newid mewn ymddygiad.

16. Ar ôl amlinellu'r prif themâu, aeth Clive ymlaen i ganolbwyntio ar newid arferion rheoli tir:

    - Adfer mawndiroedd – mae CNC yn datblygu rhaglen ac mae grŵp mewnol wedi dechrau ar y gwaith yma. Dyrannwyd swm cyfalaf o £1.5 i'r gwaith

    - Coetiroedd – Mae CNC yn dechrau ystyried ei waith o ran rheoli ac ailstocio coetiroedd o ran rheoli carbon

    - Mae CNC yn cydweithio ar draws y DU, gan ymgysylltu â Net Zero UK, gyda phwyslais ar bwysigrwydd rheoli tir

17. Trafodwyd cyfarfod yr uwchgynhadledd Net Zero a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 lle cytunwyd y byddai pob corff yn gweithio gyda'i gilydd. Nodwyd nad yw'r gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar blannu coed ond ei fod yn cwmpasu rolau pob ecosystem.

18. Nododd Dennis Matheson fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wrthi'n drafftio ymateb i'r Ymgynghoriad ar Aer Glân, gan dynnu sylw at awgrym yn yr ymgynghoriad hwnnw y dylid datblygu grŵp ar gyfer Sector Amaethyddol. Nododd y Fforwm y gorgyffwrdd â'r awgrym a thelerau'r Fforwm.

19. I gloi, diolchodd y Cadeirydd i Clive am y sesiwn a oedd yn llawn gwybodaeth a nododd fod cyfleoedd sylweddol i rannu gwaith arloesol a dysgu ar draws rhanddeiliaid y Fforwm.

## Eitem 6 Diweddariad NFU Cymru – Sero Net

20. Cadarnhaodd Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru) fod Llywydd yr NFU wedi lansio'r uchelgais i ffermwyr Prydain ym mis Ionawr 2019. Eglurodd mai'r uchelgais oedd i ffermwyr Prydain (Cymru a Lloegr) anelu at sero net ar draws gwaith cynhyrchu amaethyddol erbyn 2040. Yn dilyn y lansiad, crëwyd grŵp llywio ac mae'n cael ei gadeirio gan Lywydd NFU Cymru.

21. Yn ychwanegol at ddatganiad Llywydd yr NFU, mae gwaith datblygu wedi'i wneud dan arweiniad tîm o arbenigwyr yn Stoneleigh gan ganolbwyntio ar 3 maes allweddol:

Llinyn 1:
1. Rhoi hwb i'n cynhyrchiant, effeithlonrwydd cynhyrchu
2. Pwyslais ar wrteithiau
3. Lleihau allyriadau da byw
4. Gwella iechyd a lles anifeiliaid
5. Ffermio manwl
6. Sut rydym yn rheoli priddoedd

7. Arbed ynni
8. Geneteg
9. Technoleg y dyfodol
10. Treulio anaerobig

Llinyn 2: Coetiroedd, priddoedd, cynyddu plannu coetiroedd, mawndiroedd a gwlypdiroedd.

Llinyn 3: ynni adnewyddadwy – bioeconomi yn fwy cyffredinol

22. Cadarnhaodd Rachel fod tystiolaeth wyddonol allweddol yn cefnogi gwaith pob llinyn gyda ffocws nad yw'n ymwneud â lleihau allbynnau amaethyddol. Nododd y Fforwm fod pob fferm ar draws Cymru a Lloegr yn wahanol, gyda phob un yn gallu gwneud cyfraniad gwahanol i Net sero. Esboniodd Rachel mai un her allweddol a nodwyd yw nodi'r mecanwaith priodol ar gyfer casglu data.

23. Cadarnhaodd Rachel fod Dr Cerys Jones yn darparu cyngor a thystiolaeth.

***Pwynt gweithredu 04 Chwefror: Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Dr Cerys Jones gyflwyno cyfarfod o'r Fforwm yn y dyfodol.***

24. Cadarnhaodd Rachel fod yr uchelgais yn cael ei gefnogi'n llawn gan y Llywydd gyda llawer o ffermwyr eisoes yn mynegi cefnogaeth a diddordeb. Bydd sicrhau bod mesur o'r sefyllfa bresennol yn cael ei gymryd yn allweddol i lwyddiant yr uchelgais, ac adlewyrchir newidiadau yn y mesuriadau hynny.

25. Croesawodd Mark Alexander yr ymrwymiad a ddangoswyd gan yr NFU gyda'r 2 gam cyntaf yn cael eu seinio mewn adroddiad diweddar gan y Pwyllgor Defnydd Tir. Esboniodd Rachel fod yr NFU yn bwriadu datblygu fframwaith galluogi fel y gall ffermwyr annog newidiadau mewn ymddygiad.

26. Diolchodd y Cadeirydd i Rachel am y cyflwyniad llawn gwybodaeth.

## Eitem 7 Diweddariad gan Confor/NFU/FUW/CFfI/TFA

27. Trafodaeth bord gron er mwyn i bob aelod o'r Fforwm roi diweddariad ar bynciau allweddol o’u sefydliadau eu hunain.

28. TFA: Darparodd Dennis Matheson yr wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Amaethyddol. Bydd newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth tenantiaeth yn dod yn ôl i Senedd Cymru yn 2024.

29. Confor: Cododd Tim Kirk bryder ynghylch plâu a chlefydau yn y DU, gyda phryder yn cael ei fynegi ynglŷn â'r chwilen rhisgl sbriws Ewropeaidd a’r clefyd coed ynn. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru gynnwys rhwydweithiau gwledig o fewn paratoadau Brexit.

***Pwynt gweithredu 05 Chwefror: Mark Alexander i siarad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru o ran cyllid i ffermwyr sy'n cael gwared ar goed ynn y mae’r clefyd coed ynn yn effeithio arnynt.***

30. NFU Cymru: Gofynnodd Hedd Pugh am wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â phrosiect i ryddhau afancod yn Nyffryn Dyfi.

***Pwynt gweithredu 06 Chwefror: Ruth Jenkins i ofyn am ragor o wybodaeth i'r grŵp.***

31. Llywodraeth Cymru: Nododd Mark Alexander y diweddariadau canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Mae Brexit yn ffocws ar gyfer trefnu trefniadau ymadael – nid yw cytundeb yr UE yn cynnwys taliadau PAC.

- Mae Bil Amaethyddiaeth y DU yn sicrhau parhad pwerau a bydd Papur Gwyn yn cael ei gyflwyno. Bydd rhagor o sgyrsiau hefyd yn cael eu cynnal yng nghyfarfodydd y Fforwm.

- Tir Comin: Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n ystyried digideiddio cofrestrau (mapiau a chofnodion) gan greu cofrestr electronig o hawliau tir comin yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad ar fin digwydd.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Defra ynghylch masnach ac er mwyn sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed.

32. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu holl ddiweddariadau.

## Eitem 8 Diweddariadau gan y Fforymau

33. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cofnodion pob un o Grwpiau'r Fforwm ar gael ar-lein.

***Pwynt gweithredu 07a Chwefror: Yr Ysgrifenyddiaeth i wirio a ellir rhannu cofnodion drafft o bob Fforwm gyda'r Grŵp.***

***Pwynt gweithredu 07b Chwefror: Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu eto â Steve Ormerod o ran mynychu cyfarfod o'r Fforwm yn y dyfodol.***

## Eitem 9 Manylion y cyfarfodydd sydd i ddod

34. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf fyddai:

- Dydd Llun 11 Mai 2020
- Dydd Mercher 9 Medi 2020

## Eitem 10 Unrhyw Fater Arall

35. Gofynnodd y Cadeirydd i'r holl aelodau gyflwyno eitemau ar gyfer agendâu yn y dyfodol.

## Diwedd y cyfarfod